



100  
1922 - 2022

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee  
Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig | Participation in sport in disadvantaged areas

CCWLSIR SDA 09

Ymateb gan Urdd Gobaith Cymru | Response from Urdd Gobaith Cymru

## **Ymateb Urdd Gobaith Cymru i'r ymchwiliad i gyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.**

**Urdd Gobaith Cymru** [www.urdd.cymru](http://www.urdd.cymru)

**Adran Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru** - <https://www.urdd.cymru/cy/chwaraeon/>

Mae Adran Chwaraeon yr Urdd yn defnyddio grym y Gymraeg a chwaraeon i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a'u cael i gymryd rhan actif mewn chwaraeon yn rheolaidd. Mae gennym gynllun datblygu cenedlaethol cynhwysol mewn lle a gefnogir gan rwydwaith Cymru gyfan o staff, cymwys a brwdfrydig, prentisiaid, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sy'n ein galluogi i roi cyfle i bawb..

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ac yn derbyn cefnogaeth ariannol trwy Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae ein prif bartneriaid strategol yn cynnwys Cymdeithas Pêl Droed Cymru, Chwaraeon Anabledau Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Met Caerdydd, Awdurdodau Lleol Cymru a nifer fawr o Gyrrff Cenedlaethol Chwaraeon (NGOs)

Trwy'r Urdd mae 15,000 o blant yn cymryd rhan yn narpariaeth chwaraeon yr Urdd yn wythnosol, a thros 100,000 yn cymryd rhan yn holl weithgareddau'r Urdd yn flynyddol.

Ar wahân i ddarpariaeth yr Urdd, mae prinder cyfleoedd chwaraeon cyfrwng Gymraeg, ac rydym yn gweld twf cyson yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynychu ein gweithgareddau chwaraeon yn y Gymraeg.

Trwy gynnig chwaraeon yn y Gymraeg rydym yn cynnal a chynyddu defnydd y Gymraeg ymhlith siaradwyr Gymraeg a rheiny sy'n ddysgwyr ac yn cyfrannu at darged Gymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Rydym yn:-

Creu cyfleoedd i blant ledled Cymru gael y cyfle i fynychu gweithgareddau Chwaraeon yn y Gymraeg yn eu cymunedau

Lleihau'r rhwystrau a bod yn agored ac yn gynhwysol gan sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cefndir cymdeithasol a diwylliannol yn cael mynediad hawdd at ein darpariaeth chwaraeon ledled Cymru.

Sicrhau holl gystadlaethau a chlybiau chwaraeon Rhanbarthol a Chenedlaethol yr Urdd yn gynhwysol i blant a phobl ifanc ag anabledau, ac i gyrraedd ennill Marc Aur Chwaraeon Anabled Cymru erbyn Rhagfyr 2022

Cau'r bwlch rhwng y rhywiau mewn cyfranogiad, drwy ddatblygu darpariaeth a fydd yn canolbwyntio ar gynyddu ymgysylltiad menywod a merched mewn Chwaraeon.

Bod yn brif ddarparwr Digwyddiadau a Chystadlaethau Chwaraeon Cenedlaethol Dwyieithog yng Nghymru

Cynnal strwythur hyfforddi a chefnogi hyfforddwyr Chwaraeon Ifanc a chynnig dilyniant I gyfleoedd Prentisiaethau Chwaraeon drwy Adran Prentisiaethau'r Urdd.

### **Y prif rwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?**

Ym mhrofiad yr Urdd, dyma'r prif rai:-

#### **Diffyg capasiti darparu i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn yr ardaloedd difreintiedig.**

Mae angen rhwydwaith o swyddogion / hyfforddwyr lleol i gynnal gweithgareddau a meithrin perthynas yn yr ardaloedd difreintiedig i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Enghraifft ddarpariaeth yr Urdd Grangetown

O'n profiad, wrth sicrhau'r adnoddau a gweithio mewn partneriaid gydag Undeb Rygbi Cymru, darparwyd cynllun legacy rygbi yn Grangetown, Sblot a Threlái . Ni fyddai hyn yn bosibl heb ymrwymiad ac amser aelodo staff i feithrin y berthynas o fewn y gymuned. O ganlyniad cyflwynwyd plant o gefndiroedd ethnig amrywiol i rygbi a chynnal clybiau cymunedol rheolaidd.

#### **Diffyg dealltwriaeth am y rhwystrau mynediad ar chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig gwledig.**

Gwelwn ystod o rwystrau sy'n cynnwys prinder adnoddau chwaraeon, tlodi a chostau cludo plant a phobl ifanc i weithgareddau chwaraeon, diffyg trafndiaeth gyhoeddus, patrwm gwaith rheini a gwarchodwyr i gludo plant a phobl ifanc i weithgareddau cymunedol ar ôl ysgol.

Enghraifft o gynyddu'r cymryd rhan yn chwaraeon mewn ardaloedd gwledig

Trwy wersylloedd chwaraeon diwrnod cyfan, staff symudol rydym yn llwyddo i ddarparu mewn yn yr ardaloedd gwledig a gwelydd y manteision i gynnal darpariaeth 'symudol'.

#### **Canfyddiad chwaraeon gan ferched dros 16oed mewn ardaloedd difreintiedig.**

Ar y cynllun #felmerch a'r gynhadledd gyda 150 o ferched ym mis Mawrth , amlygwyd y rhwystrau i ferched oed 16+ i gymryd rhan mewn chwaraeon, a'r hyn sydd angen i gael mwy o ferched i fwynhau chwaraeon. Bydd adroddiad o'r gynhadledd yn cael ei gyhoeddi'n fuan

Rydym yn gweld cynnydd yn y nifer o ferched yn ein darpariaeth e.e. mae 100 o dimoedd merched yn y gystadleuaeth rygbi 7 bob ochr, mynychodd 1,272 o ferched yr ŵyl pêl-rwyd genedlaethol

#### **Pa mor glir yw'r darlun sydd gennym o'r lefelau cyfranogiad presennol mewn ardaloedd difreintiedig? A yw'r data presennol yn galluogi ymyriadau polisi i fod yn effeithiol?**

Mae'r Urdd yn casglu manylion lefelau cyfranogiad ac yn defnyddio hyn i ddatblygu ein cynnig chwaraeon, lleoli staff a sefydlu partneriaethau newydd. E.e. yn ddiweddar rydym wedi sicrhau cyllid i ateb yr angen i ddarparu chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig lle

nad oes nifer fawr o swyddogion chwaraeon; Blaenau Ffestiniog, Caergybi Gogledd Sir Benfro

O fewn rhwydwaith staffio chwaraeon yr Urdd, rydym yn sicrhau bod ein swyddogion yn deall anghenion eu cymunedau. Mae nifer ohonynt wedi lleoli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig e.e. Grangetown, Bute, Ely, Sblot, Parc Caia Wrecsam, Caergybi, Port Talbot, Rhyl ayyb. Trwy weithio o fewn ein cymunedau rydym yn medru adeiladu perthynas gyda'n cymunedau a thargedu lle mae'r angen a llenwi'r bylchau.

Ar hyn o bryd mae'r adran Chwaraeon yn defnyddio data prydiau cinio am ddim yr ysgolion i asesu cyfranogwyr sydd yn mynychu sesiynau'r Urdd o ardaloedd difreintiedig. Mae'r Urdd yn teimlo bod angen mwy o gymorth Llywodraeth Cymru i osod gwell canllawiau i'r Data sydd angen a'r dull i fudiadau i'w gasglu.

Rydym yn llunio ein strategaeth i ymgorffori strategaeth Chwaraeon Cymru, *Galluogi Chwaraeon yng Nghymru i Ffynnu, ar sail 4 blaenoriaeth Darpariaeth gymunedol / ysgolion. Trechu anghydraddoldeb, Datblygu'r Gweithlu a Digwyddiadau a chystadlaethau Cenedlaethol*

Yn rhan o'r adrodd yn ôl i gyllidwyr, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru rydym yn darparu data yn unol â gofynion y grant. Nid oes dull unffurf i adrodd yn ôl o ran data'r ddarpariaeth a'r nifer sydd yn cymryd rhan. Mae'r adran yn adrodd mwy ar brofiadau plant a phobol ifanc yn y sesiynau a sut mae'r bobl ifanc yn elwa o'r profiadau o fynychu sesiynau chwaraeon.

### **Sut y dylid defnyddio arian cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?**

Dylai unrhyw cynnig chwaraeon bod yn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Croesawn y buddsoddiad mawr yn yr adnoddau ac isadeiledd chwaraeon mewn nifer o ardaloedd difreintiedig.

I gael y gorau allan o'r buddsoddiad yn yr adnoddau mae angen y pecyn cyfan sydd yn cynnwys yr hyfforddwyr a staff i ddarparu'r cyfleoedd chwaraeon. Nid yw hyn bod tro mewn lle.

Yn aml, mae'r cyllido dros gyfnod byr o amser, mewn rhai enghreifftiau am 10 wythnos ar y tro. I annog mwy i gymryd rhan mae rhaid cael y staff yn y cymunedau i feithrin perthynas a chynnal gweithgareddau am gyfnod hirach.

Wrth gynllunio ein darpariaeth rydym yn asesu yn ofalus lle mae'r bylchau ar gyfer darpariaeth yn y Gymraeg ac nid ydym am ddyblygu a thanseilio'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft yng Nghaerdydd mae 8 canolfan dysgu nofio'r Urdd gyda dros 650 o blant yn mynychu'n wythnosol, Clwb Gymnasteg yr Urdd ym Mhort Talbot, Clwb Chwaraeon yr Urdd Caergybi, cynyddwyd ein darpariaeth yn Wrecsam, Blaenau Ffestiniog, Y Barri ac yn cydlynu i ehangu nifer o lefydd ac ardaloedd difreintiedig newydd ar draws Cymru dros y misoedd i ddod.

Hoffem hefyd weld cynnydd yn y buddsoddiad ar gyfer swyddogion penodol i weithio mewn ardaloedd gwledig

### **Pa mor effeithiol yw'r ymyriadau presennol o ran cynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?**

Mae ein darpariaeth yn hynod o boblogaidd ac yn llenwi o fewn oriau. Medrwn gynnal mwy, i wneud hyn mae angen mwy o staff.

Ar hyn o bryd rydym yn derbyn £391,000 i ddarparu darpariaeth chwaraeon Cymru gyfan gan Chwaraeon Cymru, i staffio mewn 17 rhanbarth yr Urdd. Mae hyn yn cyfateb i £23,000 i fesul rhanbarth (mae rhanbarth yn cyfateb i ardal maint awdurdod lleol). Teimlwn nad yw hwn yn adlewyrchiad cyllido teg ar y galw cynyddol am ddarpariaeth yn y Gymraeg wrth gymharu â'r cyllido sydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gyfer ardal Awdurdodau Lleol. Medrwn ddarparu mwy o fanylder ar gyllido chwaraeon i blant a phobl ifanc)

Trwy ein rhaglenni hyfforddi arweinyddion chwaraeon ifanc a chynlluniau prentisiaethau (mae 85 prentis chwaraeon ar gynllun yr Urdd led led Cymru) rydym yn meithrin ein gweithlu chwaraeon cyfrwng Cymraeg. Yn ddiabynnol ar yr adnoddau sydd ar gael, medrwn gynnig mwy o gyfleoedd i feithrin sgiliau arwain chwaraeon.

Yn ystod Medi 2021 ac Ionawr 2022, rhoddodd yr Urdd lloches i ffoaduriaid Afghanistan yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd. Roedd cynnig chwaraeon yr Urdd wedi ei integreiddio i'r ddarpariaeth a roddwyd. Trwy chwaraeon cefnogwyd iechyd a lles y ffoaduriaid a datblygwyd parch a chyfeillgarwch wrth iddynt ddechrau eu bywyd newydd yng Nghrymu. Darparodd adran chwaraeon yr Urdd gweithgareddau chwaraeon dyddiol trwy gydol y cyfnod. Trefnwyd, gyda'n partneriaid ymweliadau i gemau chwaraeon rhyngwladol Cymru a mynediad at gyfleusterau a chanolfannau chwaraeon a hamdden. Trwy gynnwys yr Urdd gweithredwyd dull unigryw, arloesol a gwahanol wrth lochesu Ffoaduriaid, a ystyrir gan arbenigwyr fel un o'r enghreifftiau gorau o arfer da yn y DU.

### **A yw'r pandemig wedi achosi unrhyw newidiadau parhaus i lefelau cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?**

Mae ein darpariaeth chwaraeon nol yn weithredol yn llawn ers y pandemig ac mae plant a phobl ifanc yn ail gydio yn yr arfer o fynychu gweithgareddau chwaraeon.

Fel mudiad mae gennym fwy o glybiau cymunedol ar draws Cymru ac mewn ardaloedd newydd e.e. Gogledd Penfro, Ynys Môn, Fflint a Wrecsam. Daw hyn wrth i'r Urdd cynllunio a thargedu ardaloedd lle'r oedd ddiffyg darpariaeth a nifer isel o gyfranogiad

Enghreifftiau

#### **Gŵyl Pêl-rwyd Genedlaethol yr Urdd Tachwedd 2021**

Croesawyd 1,272 o ferched i wyl pêl-rwyd genedlaethol, 47 o ysgolion a 106 o dimoedd. Denwyd amrywiaeth o ysgolion o ardaloedd a diwylliannau gwahanol. Roedd yn amgylchedd gwych i'r merched cymdeithasu, cystadlu a chyfathrebu gyda phobl o gefndiroedd gwahanol a chrëwyd amgylchedd dymunol i'r merched dychwelyd i chwarae pêl-rwyd unwaith eto.

Trwy weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Met Caerdydd a Phêl-rwyd Cymru wnaeth 22 myfyrwraig cael eu hyfforddi i fod yn ddyfarnwyr.

### **Gŵyl Rygbi 7 bob ochr yr Urdd**

Ym Mis Ebrill 2022 bydd 450 o dimoedd, mae 100 o dimoedd merched ferched, a thrwy weithio gydag Undeb Rygbi Cymru bydd timoedd Rygbi anabl yn rhan o'r ŵyl

### **Pa mor effeithiol y mae gwahanol sectorau (er enghraifft, addysg ac iechyd) yn cydweithio i wella cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?**

Rydym yn gweithio'n agos iawn gydag ystod o fudiadau ar nifer o brosiectau, yn enwedig ar y cynlluniau Lles y Gaeaf a Hwyl yr Haf. Ar y cynlluniau yn Haf 2021 a Gaeaf 21/22 gwnaeth yr adran ddarparu dros 500 o weithgareddau chwaraeon i 12,000 o blant. Roedd y cynlluniau dan adain Llywodraeth Cymru ac wedi eu hanelu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roedd cynnwys yr Urdd yn allweddol i'r ddarpariaeth i sicrhau bod y cynnig gael yn y Gymraeg yn yr ardaloedd difreintiedig.

Yn y dyfodol hoffem i'r Urdd, gael ei hystyried yn bartner cenedlaethol ac i dderbyn y cyllid yn uniongyrchol i ddarparu rhaglenni 'Lles y Gaeaf a Haf o Hwyl' ar gyfer chwaraeon yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig.

Yn ein Prosiect Lles chwaraeon i bobl ifanc, tynnwyd nifer helaeth o bartneriaid traws sector i'n cefnogi a chynorthwyo ar y ddarpariaeth.

Gyda'r sector addysg, rydym yn darparu'r canlynol o fewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig; Sesiynau Chwarae yn y Gymraeg, Cynllun Llythrennedd Corfforol meithrin, Clybiau Aml Chwaraeon, Clybiau Cinio. Clybiau ar ôl Ysgol a chyfleoedd i fynychu cystadleuaeth Ranbarthol.

Mae sesiynau'r adran yn cynnwys yr elfennau canlynol: Sgiliau Corfforol + Hyder + Cymhelliant + Gwybodaeth + Dealltwriaeth = Llythrennedd Corfforol. Gyda'r elfennau yma mae person yn fwy tebygol o fod yn llythrennog yn gorfforol – bod yn hapus, iach a hyderus – a hefyd cael yr adnoddau i fwynhau bod yn actif

### **A oes enghreifftiau o arfer gorau, o fewn Cymru ac yn rhyngwladol, y dylid dysgu oddi wrthynt i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?**

Mae model darparu chwaraeon yr Urdd yn un llwyddiannus ac yn cynyddu nifer sydd yn cyfranogi yn chwaraeon yn flynyddol.

Mae yn fodel unigryw yn defnyddio grym Chwaraeon a'r Gymraeg, a meithrin arwyddion ifanc a gweithlu chwaraeon cyfrwng Cymraeg trwy gynllun prentisiaethau'r Urdd.